

# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

<b>Cymeradwywyd gan</b>	<b>Y Cyngor Llawn</b>
<b>Dyddiad Cymeradwyo</b>	<b>12/04/2016</b>
<b>Dyddiad Rhoi ar Waith</b>	<b>12/04/2016</b>
<b>Perchennog</b>	
<b>Dyddiad Adolygu</b>	<b>15/03/2026</b>

# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

## Rheoli Fersiynau

Mae'r ddogfen hon yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. Gellir dod o hyd i'r fersiynau diweddaraf o'n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a'r canllawiau perthnasol.

Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo	Cymeradwywyd gan	Nodiadau / newidiadau
f1.0	12/04/2016	Cyngor Llawn	Polisi Newydd
f2.0	25/04/2018	Andrea Malam	Ail-fformatio
f2.1	15/03/2024	David Kennedy	Ail-fformatio

# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

## Cynnwys

Rheoli Fersiynau	2
Cynnwys	3
CYFARWYDDWYR A PHENAETHIAID GWASANAETH	4
RHEOLWYR	4
Adnoddau Dynol	4
Cyflwyniad	4
Polisi	4
Beth yw'r cyfryngau cymdeithasol?	5
Manteision a pheryglon defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol	6
Cyfreithiol	7
Gwarchod Data	7
Diogelu plant a phobl ifanc agored i niwed.	7
Defnydd personol o'r cyfryngau cymdeithasol	7
Safonau Iaith Gymraeg	9
Rhai pwyntiau eraill i'w nodi	9
Rhoi'r polisi hwn ar waith	9
Ystyriaethau ar gyfer gweithwyr	10
Cwestiynau Cyffredin	11
Ga' i ddweud ar fy nhudalen cyfryngau cymdeithasol personol fy mod wedi cael diwrnod caled yn y gwaith?	11
Ga' i ddefnyddio fy nghyfeiriad ebost cyngor ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol?	11
Oes raid i fi fod yn broffesiynol wrth wneud sylwadau hyd yn oed pan nad wyf yn y gwaith? Beth am ryddid mynegiant?	11
Pam fod angen i fi fod yn ofalus ynglŷn â beth rwyf yn ei bostio, os taw dim ond fy ffrindiau all weld fy nghyfrif?	12

# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

## ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

### CYFARWYDDWYR A PHENAETHIAID GWASANAETH

Mae Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau,.

### RHEOLWYR

Mae rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gweithwyr yn eu hadran yn deall y polisi hwn ac yn glynu wrtho.

### Adnoddau Dynol

Mae Cyswllt AD yn gyfrifol am gynghori a chefnogi rheolwyr wrth roi'r polisi hwn ar waith.

### Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r gofynion ar gyfer defnydd personol o'r cyfryngau cymdeithasol yn y gwaith. Mae'r polisi yn cefnogi polisiâu eraill y cyngor, gan gynnwys:

- Cod Ymddygiad.
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Polisi Rhyngrwyd, Ebst, Ffôn a Monitro

### Polisi

At bwrpas y polisi hwn, math o gyfrwng rhyngweithiol ar-lein yw'r cyfryngau cymdeithasol sy'n galluogi pobl i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth, diddordebau a barn mewn ffordd gyhoeddus.

Mae cyfathrebu yn flaenoriaeth strategol ar gyfer y cyngor, yn enwedig yn ystod y cyfnod o newid heriol presennol. Yn y cyfnod hwn o newid, mae mwy o angen nag erioed am gyfathrebu dwy ffordd effeithiol ac i farchnata gwasanaethau a gweithgareddau'r cyngor. Mae hyn ynddo'i hun yn achosi sawl her i'r cyngor.

## Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Mae angen i'r cyngor gyfathrebu ac ymgynghori'n fwy effeithiol gyda thrigolion a rhanddeiliaid allweddol. Y Cyfryngau Cymdeithasol yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gyflawni'r nod hon ac mae'n ffurfio rhan bwysig o Strategaeth Gyfathrebu trosfwaol.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn ffordd effeithiol o ymgynghori ac ymgysylltu gyda thrigolion lleol, grwpiau cymunedol a chymdeithasau. Mae nifer gynyddol o bobl yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i fynegi barn, yn ogystal â'u ddefnyddio fel ffordd o gasglu gwybodaeth ar faterion lleol sy'n bwysig iddynt. Dyna pam fod yn rhaid i'r cyngor wneud y mwyaf o'r cyfle hwn i ymgynghori ac ymgysylltu, yn ogystal â chyfathrebu.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithio cymdeithasol sy'n dderbyniol, gan gynnwys canllawiau clir i weithwyr, a'i fwriad yw cynorthwyo rheolwyr o safbwynt rheoli perfformiad wrth ddelio gyda materion sy'n ymwneud â'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae hefyd yn fwriad gan y polisi i sicrhau bod y cyngor yn deg a chyson ar gyfer yr holl weithwyr, Aelodau a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar ran y cyngor. Ond yn fwy na dim, mae'n ystyried manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel rhan o waith dydd i ddydd, ond yn amlinellu rhai o'r peryglon sydd angen eu hystyried yn ystod gwaith dydd i ddydd. Mae canllawiau penodol wedi eu creu ar gyfer Aelodau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gweler canllaw Cyfryngau Cymdeithasol CLILC: Canllaw i Gynghorwyr sydd ar gael o wefan CLILC <http://www.wlga.gov.uk> am fwy o wybodaeth.

## Beth yw'r cyfryngau cymdeithasol?

Y Cyfryngau cymdeithasol yw'r term a roir i wefan, arfau arlein a Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu eraill a ddefnyddir i rannu cynnwys, barn, proffiliau personol/proffesiynol, sylwadau a dolenni i gyfryngau eraill arlein. Mae twf y cyfryngau cymdeithasol yn cynnig y cyfle i gyfathrebu mewn ffyrdd newydd, ac i gyrraedd trigolion nad ydynt yn ymgysylltu trwy'r sianeli cyfathrebu traddodiadol.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys (ond nid yw wedi eu cyfyngu i'r canlynol):

- Blogiau (personol a phroffesiynol)
- Facebook
- Twitter
- Bebo
- MySpace

## Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

- YouTube
- Flickr
- LinkedIn
- Tumblr Gwefannau personol
- Reddit
- Wikis
- Podcastiau
- Fforymau arlein

## Manteision a pheryglon defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

Mae nifer o fanteision i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol:

- Dull cyfoes o gyfathrebu
- Rhannu negeseuon amserol ar unwaith
- Cyrraedd cynulleidfa eang
- Ffordd effeithiol o gyfathrebu
- Arf ymgynghori
- Arf ymgysylltu
- Y gallu i ddilyn / monitro cyfrifon sefydliadau partner
- Cyfle gwych i farchnata Cyngor Sir Ddinbych a'i weithgareddau
- Hyrwyddo digwyddiadau y mae'r Cyngor yn eu trefnu.
- Fforwm perffaith ar gyfer cyfathrebu negeseuon mewn argyfwng.
- Ail drydar negeseuon o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol eraill.

Mae nifer o risgiau hefyd ynghlwm â defnyddio cyfryngau cymdeithasol:

- Mwy o gyfle i bobl feirniadu'r cyngor mewn fforwm agored
- Mwy o risg i enw da'r cyngor drwy ddarparu fforymau trafod
- Rheolaeth gyfyngedig sydd gennych ar reoli'r adborth a geir i'ch sylwadau.
- Gall pobl ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer hel straeon negyddol a allai effeithio enw da'r cyngor.

Fodd bynnag, mae angen ystyried nifer o faterion o safbwynt cyfreithiol, gwarchod data a diogelu.

# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

## Cyfreithiol

Gall goblygiadau gyfreithiol godi o ddefnydd anaddas o'r cyfryngau cymdeithasol. Gallai sefydliad neu unigolyn fod yn atebol os nad ydynt yn dilyn y ddeddfwriaeth berthnasol. Rhaid i unigolion fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan gyfreithiau difenwad, hawlfraint, gwahaniaethu, contract, hawliau dynol a gwarchod rhag aflonyddu (nid yw'r rhestr hwn yn gyflawn) ac yn bwysicach, Cod Ymarfer y cyngor ar gyfer gweithwyr ac Aelodau. Mae'r canllaw a gynhyrchwyd gan CLILC yn cyfeirio at oblygiadau cyfreithiol i Aelodau.

## Gwarchod Data

Rhaid i'r cyngor sicrhau fod ei holl weithwyr yn cadw at y Ddeddf Gwarchod Data. Dylai gweithwyr ac Aelodau sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth bersonol ynglŷn ag unrhyw unigolyn yn cael ei ryddhad heb gydsyniad datganedig ganddynt y caiff y cyngor wneud hynny. Y cyngor gorau, a'r mwyaf diogel yw osgoi defnyddio gwybodaeth bersonol ar y cyfryngau cymdeithasol. Unwaith mae gwybodaeth wedi ei gyhoeddi, mae'n anodd ei dynnu yn ôl.

## Diogelu plant a phobl ifanc agored i niwed.

Rhaid i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sir fod ymwybodol o'r materion diogelu sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Gall y ffin denau rhwng gwybodaeth bersonol, preifat a phroffesiynol sy'n cael ei rannu ar wefannau cyfryngau cymdeithasol wneud unigolion yn agored i her a champau disgyblu posib.

## Defnydd personol o'r cyfryngau cymdeithasol

Mae'r cyngor yn cydnabod bod llawer o weithwyr yn gwneud defnyddi personol o'r cyfryngau cymdeithasol. Pan nad yw gweithiwr yn gweithredu ar ran y cyngor, rhaid i weithiwr fod yn ymwybodol y gallant niweidio enw da'r cyngor os ydynt yn cael eu hadnabod fel un o'n gweithwyr.

Caniateir i weithwyr ddweud eu bod yn gweithio i'r cyngor ac mae'r cyngor yn cydnabod yr hoffent drafod elfennau o'r proffesiwn/arbenigedd o dro i dro. Fodd bynnag, os yw gweithiwr yn trafod eu gwaith ar y cyfryngau cymdeithas (er enghraifft, drwy roi barn ar eu harbenigedd neu'r sector y mae'r cyngor yn

## Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

gweithio ynddo), dylent gynnwys datganiad tebyg i'r isod ar eu proffil: "Fy marn fy hun yn unig a fynegir yma ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn fy nghyflogwr."

Rhaid i unrhyw gyfathrebu y mae gweithiwr yn ei wneud drwy ddefnydd personol o'r cyfryngau cymdeithasol beidio: torri cyfrinachedd, gwneud unrhyw beth y gellid ei ystyried yn wahaniaethol, neu y gellid ei ystyried fel bwlio, erlid neu aflonyddu, dwyn anfri ar y cyngor neu dorri hawlfraint.

Gallai'r ddelwedd bersonol yr ydych yn ei chyflwyno ar y cyfryngau cymdeithasol adlewyrchu'n wael ar y cyngor. Rhaid i weithwyr ystyried y canlynol wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol:

- Bod yn ymwybodol o bolisiâu a chanllawiau'r cyngor ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chadw at y Ddeddf Gwarchod Data a deddfwriaeth berthnasol arall.
- Peidio cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y rhyngrwyd a allai ddwyn anfri ar y cyngor.
- Drwy enwi eu hunain fel gweithwyr i'r cyngor o fewn rhwydwaith gymdeithasol, maent nawr wedi eu cysylltu â'u cydweithwyr, rheolwyr, ac yn aml, gyda thrigolion a gweddill y byd hefyd. Felly mae unrhyw gynnwys sy'n gysylltiedig â hwy eu hunain yn gysylltiedig gyda'u gwaith i'r cyngor.
- Defnyddio disgresiwn
- Peidio tynnu sylw at eu hunain mewn cyfathrebu personol ar y cyfryngau cymdeithasol. Wrth wneud defnydd personol o'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid iddynt beidio awgrymu eu bod yn siarad dros y cyngor. Rhaid i chi nodi'n glir mai eich barn a'ch sylwadau eich hun yr ydych yn eu mynegi, ac nid barn y cyngor.
- Osgoi defnyddio cyfeiriad ebost, logo, neu unrhyw ddull adnabod arall i'r cyngor. Egluro mai eu barn eu hunain yn unig yw'r hyn y maent yn ei ddweud gan ddefnyddio ymwadiad.
- Sicrhau nad yw gwybodaeth sy'n cael ei bostio yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol na breintiedig.
- Dangos parch at bawb
- Dangos parch tuag at y cyngor a'u cydweithwyr, Aelodau, gwirfoddolwyr, a'r cyhoedd. Mae sylwadau dirmygus bob amser yn anghywir. Dylai pob gweithiwr a chynghorydd gyfarwyddo gyda'r Llyfryn Parch (ar gael ar y rhyngrwyd) sy'n cynnig canllawiau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a pharch.
- Cyn rhoi unrhyw beth ar y cyfryngau cymdeithasol – gwnewch yn siŵr nad yw gweithgareddau arlein yn ymyrryd gyda'u swyddi ac nad yw'n cael unrhyw effaith ar wasanaethau i drigolion.

Mae Cod Ymddygiad y gweithwyr ar y rhyngrwyd. Mae Cod Ymddygiad yr Aelodau o fewn Rhan 5 Cyfansoddiad y cyngor a gellir dod o hyd iddo ar y rhyngrwyd.



# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

## Safonau Iaith Gymraeg

Cofiwch os gwelwch yn dda fod yn rhaid i sylwadau sy'n cael eu rhoi ar wefannau cymdeithasol ar ran Sir Ddinbych gydymffurfio gyda pholisi iaith Gymraeg y cyngor os nad yw'n ymateb uniongyrchol i sylw a wnaed gan unigolyn neu sefydliad allanol. Os felly, dylai'r ymateb fod yn yr iaith y gwnaed y sylw.

## Rhai pwyntiau eraill i'w nodi

Gellid dal sefydliad yn gyfrifol am rywbeth mae gweithiwr wedi ei ysgrifennu ar ran y cwmni, felly mae'n bwysig gwirio cyn rhannu datganiadau o flogiau neu wefannau eraill.

## Rhoi'r polisi hwn ar waith

Mae'r polisi hwn yn dibynnu ar weithwyr ac aelodau i weithredu'n gyfrifol ac yn unol â'r polisi. Mae Cod Ymddygiad y gweithwyr (ar gael gan Adnoddau Dynol neu'r rhyngrawd) a Chod Ymddygiad yr Aelodau yn darparu'r sail ar gyfer y canllawiau cyfryngau cymdeithasol hyn. Mae'r un rheolau yn berthnasol i weithgarwch arlein ag sy'n berthnasol i weithredu yn gyffredinol, fel a nodir yn y Cod Ymddygiad.

Mae'n bosib y bydd unrhyw weithiwr neu wirfoddolwr cyngor sy'n cymryd rhan mewn cyfathrebu arlein nad yw er budd pennaf Cyngor Sir Ddinbych yn wynebu camau disgyblu. Gallai hyn gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i): rhannu gwybodaeth gyfrinachol y cyngor arlein, neu sylwadau anghywir, atgas neu ddifenyddol am y cyngor.

Tra bo'r cyngor yn parchu hawl gweithiwr neu wirfoddolwr i fynegi barn, rhaid ystyried yn ofalus nad yw unrhyw sylwadau yn dwyn anfri ar y cyngor.

Mae gan pob gwirfoddolwr sy'n gweithio i'r cyngor ddyletswydd i gydymffurfio gyda chanllawiau a pholisïau corfforaethol ac felly hefyd y polisi hwn.

Os oes gennych bryderon bod cydweithwyr yn torri'r polisi hwn neu'r Cod Ymddygiad, rydym yn eich annog i godi'r pryderon wrth ddefnyddio y Weithdrefn Chwythu'r Chwiban.

Rhaid i Gynghorwyr gofio bod yn rhaid iddynt gydymffurfio gyda Chod Ymddygiad yr Aelodau o safbwynt dyletswyddau cyfrinachedd a'r angen i drin pawb yn ystyrlon a gyda pharch. Os yw cynghorydd yn methu dilyn y canllawiau hyn, gallai hynny arwain at ymchwiliad gan Ombwdsmon y

## Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru a chosbau posib, fel atal neu golli swydd. Mae gan Aelodau hefyd ddyletswydd i adrodd am unrhyw Aelod arall sy'n torri'r cod.

Rydym yn monitro defnydd o'r rhyngwyd ar draws y cyngor, ac yn ymchwilio'r prif ddefnyddwyr er mwyn gweld faint o amser sydd wedi ei ddefnyddio a'r safleoedd sydd wedi eu defnyddio. Os byddwn yn darganfod defnydd anaddas neu ormodol o'r rhyngwyd, bydd y mater yn cael ei drosglwyddo i reolwr yr unigolyn neu'n uwch, a gallai arwain at gloi cyfrif rhyngwyd yr unigolyn am gyfnod o amser ac / neu ymchwiliad disgyblaethol.

## Ystyriaethau ar gyfer gweithwyr

- Enwch eich hun mewn yn eich cyfathrebu arlein, gan roi'ch enw, ac os yw'n berthnasol, eich rôl o fewn Cyngor Sir Ddinbych pan fyddwch yn trin materion sy'n ymwneud â'r cyngor. Ysgrifennwch yn y person cyntaf, a sicrhewch ei fod yn glir eich bod yn siarad drosoch eich hun ac nid ar ran Cyngor Sir Ddinbych.
- Os ydych yn cyhoeddi unrhyw gynnwys ar unrhyw wefan y tu allan i Gyngor Sir Ddinbych a'i fod yn ymwneud â'ch gwaith/gwasanaethau cyngor, defnyddiwch ymwadiad fel hwn: "Fy sylwadau fy hun a geir yma ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli cynlluniau na barn Cyngor Sir Ddinbych."
- Byddwch yn ofalus rhag gor-ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'ch digwyddiad / gwasanaethau – gall hyn ymddangos fel 'spamio' neu hysbysebu diangen, a gall roi argraff wael.
- Parchwch gyfreithiau hawlfraint (gan gynnwys defnyddio lluniau â hawlfraint) a byddwch yn ofalus i beidio llên-ladrata gwaith rhywun arall.
- Peidiwch byth a rhoi gwybodaeth gyfrinachol arlein. Ni ddylech gyfeirio at unrhyw gleientiaid, contractwyr na phartneriaid heb eu caniatâd.
- Mae'r rhan fwyaf o safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn gofyn i chi gytuno i amodau gwasanaeth. Chi sy'n gyfrifol am ddarllen a chydymffurfio gydag amodau gwasanaeth safleoedd yr ydych yn eu defnyddio.
- Mae rhai safleoedd, megis LinkedIn, yn galluogi pobl i "argymell" cyd-weithwyr neu gyn gyd-weithwyr. Dylid rhoi unrhyw eirdaon yn unol â Gweithdrefn a Pholisi Geirdaon Cyngor Sir Ddinbych. Rhaid rhoi unrhyw eirdaon cymeriad o bersbectif personol, yn unol â'r polisi.
- Parchwch eich cynulleidfa. Peidiwch â defnyddio sarhad ethnig na phersonol, anweddustra a pheidiwch cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch na fyddai'n dderbyniol yng ngweithle'r cyngor.
- Rhaid i chi gadw at Gynllun Iaith Gymraeg y cyngor, sy'n nodi'n amlwg bod yn rhaid i unrhyw wybodaeth sydd yng ngwŷdd y cyhoedd gael ei drin yn gyfartal ac ymddangos yn ddwyieithog. Yr

## Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

unig eithriad yw mewn argyfwng, pan ganiateir cyhoeddi gwybodaeth yn Saesneg yn gyntaf, gyda'r Gymraeg i ddilyn cyn gynted â phosib. Rhaid i wybodaeth fod yn union yr un fath yn y Saesneg a'r Gymraeg. Os cewch eich holi am wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, dylech ymateb yn yr iaith y gofynnwyd y cwestiwn.

Isod mae esiamplau o sut na ddylid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol:

- Ystyriwch yn ddifrifol cyn ymuno â grwpiau cyfryngau cymdeithasol sydd wedi eu sefydlu at bwrpas beirniadu'r awdurdod yn unig.
- Cofiwch y gallai ymuno â rhai grwpiau penodol olygu gwrthdaro buddiannau gyda'ch dyletswyddau dyddiol yn y gwaith yn y dyfodol.
- Ni ddylai athrawon a gweithwyr cymdeithasol fod â phlant a phobl ifanc/disgyblion/myfyrwyr yn eu rhestrau ffrindiau neu gysylltiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Cwestiynau Cyffredin

### **Ga' i ddweud ar fy nhudalen cyfryngau cymdeithasol personol fy mod wedi cael diwrnod caled yn y gwaith?**

Gallwch, ond ni ddylech fanylu. Dylech siarad am eich rhesymau personol dros eich diwrnod caled. Dylech feddwl am sut gallai'ch sylwadau eich adlewyrchu fel gweithiwr cyngor.

### **Ga' i ddefnyddio fy nghyfeiriad ebost cyngor ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol?**

Na, dylech ddefnyddio eich cyfeiriad ebost personol. Os ydych yn cynrychioli'r cyngor ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol, gallwch ddefnyddio'ch cyfeiriad e-bost cyngor. Fodd bynnag, os ydych yn cyflwyno'ch hun fel gweithiwr cyngor ar unrhyw fforwm arlein, dylech ei gwneud hi'n amlwg nad ydych yn siarad dros y cyngor, a bod beth yr ydych yn ei ddweud yn adlewyrchu'ch barn personol, ac nid o reidrwydd yn adlewyrchu barn y cyngor.

### **Oes raid i fi fod yn broffesiynol wrth wneud sylwadau hyd yn oed pan nad wyf yn y gwaith? Beth am ryddid mynegiant?**

Os ydych yn cynrychioli'ch hun fel gweithiwr cyngor, rhaid i chi fod yn broffesiynol wrth wneud sylwadau. Mae polisïau a gweithdrefnau'r cyngor yn dal i fod yn berthnasol pan fyddwch yn eich

## **Polisi Cyfryngau Cymdeithasol**

cynrychioli'ch hun fel gweithiwr cyngor. Efallai yr hoffech ystyried cynnal tudalennau cyfryngau cymdeithasol proffesiynol a phersonol. Cofiwch y dylech bob amser fod yn broffesiynol arlein, hyd yn oed ar eich tudalen bersonol, gan fod cyfryngau cymdeithasol yn gyhoeddus.

### **Pam fod angen i fi fod yn ofalus ynglŷn â beth rwyf yn ei bostio, os taw dim ond fy ffrindiau all weld fy nghyfrif?**

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn safleoedd cyhoeddus. Er bod rheolaethau preifatrwydd, dylech gofio y gallai'r cyhoedd weld eich sylwadau. Er enghraifft, gall peiriannau chwilio leoli sylwadau cyfredol nawr ac yn y dyfodol, gall eich "ffrindiau" gopïo eich sylwadau a'u gwneud yn gyhoeddus, a gallai'ch cydweithwyr gael mynediad at eich safleoedd.